

# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

## Rheolwr Contractau a Chaffael Peirianneg Traffig

Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



Mark McNamara
PENNAETH GWASANAETH ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel, a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.


Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.
Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.




# Ble rydym wedi'n leoli?

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru

- **Aberystwyth, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Sir y Fflint**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**



# Teitl y swydd: Rheolwr Contractau a Chaffael Peirianneg Traffig



**Cyflog:** £48,226 – £50,269

**Cyfnod:** Parhaol

**Lleoliad:** **Helygain**

**Dyddiad cau:** 06/11/2025 10:00

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

## Pwrpas y swydd

Cyfle cyffrous i ymuno â thîm sefydledig o Reolwyr Prosiectau a Rhaglenni sy'n cyflawni prosiectau cyfalaf ar rwydwaith Cefnffyrdd ledled Gogledd a Chanolbarth Cymru. Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am arwain prosiectau sy'n gysylltiedig â thraffig a diogelwch ffyrdd, gwelliannau priffyrdd, uwchraddio, a phrosiectau cyfalaf cynnal a chadw mawr, trwy ein cadwyni cyflenwi sector cyhoeddus a phreifat estynedig. Mae'r swydd yn elwa o'n model gweithio hybrid gyda'r cyfle i weithio gartref.



# Cyfrifoldebau

**Rheoli Prosiectau**

- Ymgymryd â rôl oruchwylio a chydlynu ar gyfer gweinyddu holl gontractau'r Asiantaeth a sicrhau y cânt eu cyflawni yn unol â'r gofynion costau, amser ac ansawdd, gan gynnwys
- Gweithredu fel arbenigwr yr Asiantaeth ar weinyddu contractau a chaffael prosiectau.
- Sicrhau bod y gwaith o weinyddu contractau ar gyfer prosiectau ar y rhwydwaith yn cydymffurfio â gofynion LlC.
- Gweithredu fel Noddwr Prosiect ar brosiectau fel y cytunwyd.
- Gweithredu fel Cleient CDM ar brosiectau fel y cytunwyd. Cynghori a chynorthwyo Noddwyr Prosiect ar rôl y Cleient CDM.
- Rheoli'r holl gyllidebau prosiect priffyrdd perthnasol sy'n gysylltiedig â'r uchod.

**Rheoli Rhaglen**

- Cynorthwyo gyda chydlynu'r broses o adnabod, hyrwyddo a blaenoriaethu rhaglen flynyddol a rhaglen pum mlynedd yr Asiantaeth o gynlluniau adnewyddu, uwchraddio a chynlluniau diogelwch.
- Cefnogi Noddwyr Prosiect yr Asiantaeth i ddatblygu a chyflawni rhaglen gyffredinol o brosiectau refeniw a chyfalaf ar draws y rhwydwaith Cefnffyrdd yng ngogledd Cymru yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru (LlC).
- Galluogi cyflawni'r rhaglenni o brosiectau drwy gaffael gwasanaethau ymgynghorol cefnffyrdd a gwaith adeiladu yn unol â gweithdrefnau'r Asiantaeth.

**Dyletswyddau Technegol Eraill**

Cynorthwyo yng nghyswllt agweddau technegol a chytundebol y sefydliad, monitro ac adnewyddu contractau fframwaith yr Asiantaeth.

Cynorthwyo i ddatblygu a gweithredu polisi a gweithdrefnau caffael prosiectau, gan gynnwys datblygu a gweithredu system rheoli prosiectau SharePoint a'r gronfa ddata gysylltiedig. Bydd hyn yn cynnwys materion hyfforddi a datblygu staff o fewn yr Asiantaeth a gyda darparwyr gwasanaeth.

Sicrhau bod egwyddorion Rethinking Construction yn cael eu hyrwyddo gan yr Asiantaeth yn ei gweithdrefnau caffael.

Datblygu ac adolygu prosesau fel rhan o raglen wella barhaus i sicrhau bod dyraniadau cyllidebol yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon, ac y cwblheir gwaith ar amser ac yn unol â gofynion costau ac ansawdd, heb ymateb diangen gan y cyhoedd neu'r cyfryngau.
Cynorthwyo â rheoli, casglu, paratoi a chyflwyno amcangyfrifon cost a'r rhaglen i LlC yn unol â'r prosesau comisiynu a gytunwyd.

Sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ofynion deddfwriaethol sy'n berthnasol i'r swydd.

Sicrhau bod darparwyr gwasanaeth yr Asiantaeth, yr Awdurdodau Partner a'r Fframwaith yn cydymffurfio â pholisïau a safonau y DU / LlC.




# Manylion Person

**Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.**

## Meini prawf penodol i'r swydd

**Nodweddion personol:**

**Hanfodol**

- Sgiliau arwain tîm a dirprwyo
- Sgiliau penderfynu a negodi.
- Gallu ysgogi eich hun, yn frwdfrydig ac yn ymrwymedig.
- Sgiliau rhyngbersonol wedi'u datblygu'n dda.

**Cymwysterau a hyfforddiant personol:**

- Gradd Peirianneg Sifil neu bwnc perthnasol.
- Peiriannydd Sifil Siartredig neu gyfwerth neu brofiad sylweddol Rheolwr Prosiect NEC 3 ar lefel uwch a'r gallu i ddod yn Siartredig ymhen 18 mis o'r penodiad

**Profiad perthnasol:**

- Profiad o reoli timau aml-ddisgyblaethol ar lefel uwch, yn cynnwys datblygu a rheoli cyllidebau perthnasol.
- Profiad rheoli prosiect ar lefel uwch.
- Profiad sylweddol o reoli adnoddau.
- Profiad o weinyddu contractau ar lefel uwch gyda gwybodaeth lefel uchel o weithdrefnau contract NEC3
- Profiad rheoli risg.

**Sgiliau a gwybodaeth arbenigol:**

- Dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch gan gynnwys rheoliadau CDM.
- Y gallu profedig o reoli prosiect a rheoli cyllid.
- Sgiliau rheoli wedi'u profi.
- Sgiliau caffael a gweinyddu contractau profedig.
- Sgiliau ysgrifennu adroddiadau a chyflwyno da.
- Yn gwbl hyddysg am TG.
- Trwydded yrru gyfredol

# Gweithio i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a datblygu ein staff:

- 29.5 o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- Patrwm gweithio oriau fflecsi

- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.

- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i'r gwaith.
- Arbedion ar siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy.

- Cyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith.

- Gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.